SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD

Pennaeth Diogelu, Gofal a Chymorth

Cyfeirnod y Swydd:
Dyddiad y Disgrifiad Swydd: Tachwedd 2023

Gradd	Pennaeth Gwasanaeth – Lefel 1
Gweithle	TŶ ELÁI, TREWILIAM, TONYPANDY
Cyfadran	Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Uwchadran	Gwasanaethau i Oedolion
Adran	Uwch Reolwyr
Carfan/Is-garfan	Diogelu, Gofal a Chymorth
Yn atebol i	Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion
Swyddi sy'n atebol i'r swydd yma	Rheolwyr Gwasanaethau Perthnasol, yn amodol ar adolygiad.
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	Oes - Manwl

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Cyngor Rhondda Cynon Taf yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Os ydych chi'n gweithio i ni, mae eich gwaith yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau.
Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.
Rydyn ni'n darparu rhaglenni ymsefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

Llesiant a Chydbwysedd Gwaith-Bywyd
Mae ein Strategaeth Lles y Gweithlu gynhwysfawr yn cydnabod yr holl elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, Cerdyn 'Vivup' i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau a chynllun **Beicio i'r Gwaith**.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n gyfle i chi gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae ein **cynllun pensiwn** yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae modd i chi fanteisio ar gyfleoedd pellach i roi hwb i'ch lles ariannol drwy ymuno â'n gweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael, sef 26 diwrnod (pro rata) yn cynyddu i 31 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata). Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' (rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau (sydd yn agored i staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol).

Edrychwch ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Diben y swydd:

Bydd deiliad y swydd yn:

- Bod yn gyfrifol am weithrediad Maes Gwasanaeth Gofal a Chymorth; sicrhau ymarfer, darpariaeth gofal a chymorth o ansawdd uchel er mwyn annog unigolion i ddatblygu twf personol, cymhwysedd a phrofiad. Bydd gofyn bod deiliad y swydd yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella safonau a'u rhagori er mwyn bodloni gofynion statudol a gofynion polisi.

- Bod yn gyfrifol am y gwasanaeth diogelu oedolion a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Sicrhau lefelau uchel o drylwyredd wrth roi'r gofynion Deddfwriaethol, Canllawiau Statudol ac Ymarfer ar waith i gadw pobl sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn ddiogel, a diogelu buddiannau gorau pobl.

- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod hawliau cynhalwyr (gofalwyr) yn cael eu cynnal a gweithio gydag eraill i sicrhau bod ystod effeithiol o seibiant, gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael.

- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod rôl gwasanaethau i oedolion wrth gefnogi hawliau pobl am eiriolaeth yn cael ei ddeall a'i gynnal.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion i bennu datblygiad strategol y Gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys arwain y broses o roi newidiadau sefydliadol a newidiadau o fewn y gwasanaeth ar waith (rhai cyfredol ac yn y dyfodol) i drawsnewid y Gwasanaeth a sicrhau cyfleoedd ar gyfer integreiddio ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

Rheoli Strategol

- Ac yntau'n aelod o'r Garfan Reoli, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd wreiddio gweledigaeth ac egwyddorion y Gwasanaeth ym mhob carfan.

- Cymryd cyfrifoldeb am gyflawni cynlluniau strategol a pholisïau'r Gwasanaethau i Oedolion, trwy weithredu newid diwylliannol a datblygiad sefydliadol, a hwyluso'r gwaith o greu diben cyffredin ar draws y sefydliad.

- Arwain y broses o roi newidiadau mawr ar waith o fewn y maes gwasanaeth, gan gynnwys asesu opsiynau, cynnal ymgynghoriadau perthnasol ac adolygu deilliannau.

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

- Hyrwyddo gwaith pennu ffyrdd creadigol ac arloesol er mwyn darparu deilliannau cadarnhaol gan wneud y gorau o adnoddau cyfyngedig.

- Ac yntau'n aelod o'r Garfan Reoli, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio gyda chydweithwyr er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl bolisïau, safonau, gweithdrefnau a'r fframwaith rheoleiddiol.

- Bod yn atebol ar gyfer darparu gweithgareddau a fydd yn sicrhau trefniadau diogelu effeithiol yn unol â'r dull a gytunwyd arno gan Fwrdd Diogelu Oedolion.

- Sicrhau bod y gwasanaethau'n gweithredu yn erbyn gwahaniaethu o ran hil, rhyw, oed, statws priodasol, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu genedligrwydd.

- Dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Oedolion yn ôl yr angen.

Rheoli Gwasanaeth

- Gweithredu'n arbenigwr a phennaeth proffesiwn y Cyngor ar gyfer y maes gwasanaeth a darparu cyngor o ansawdd uchel ar faterion datblygu a gweithredu'r gwasanaeth.

- Bod yn rhagweithiol wrth weithio gyda phartneriaid er mwyn llywio dulliau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu integreiddiad effeithiol er mwyn darparu ystod eang o gyfleoedd sy'n bodloni anghenion newidiol.

- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â fframweithiau cyfreithiol a pholisi gan fanteisio ar brofiad sylweddol a chynhwysfawr ym maes rheoli gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau cyflawniad effeithiol.

- Hyrwyddo dull arloesol a chreadigol o gyflawni deilliannau cadarnhaol ac uchelgeisiol.

- Rhoi cyfeiriad a phwrpas clir i staff ar bob lefel, trwy droi penderfyniadau gwleidyddol yn dargedau darparu gwasanaeth uchelgeisiol ond y mae modd eu cyflawni.

- Rheoli a gwella cyflawniad Rheolwyr Gwasanaeth ac Rheolwyr Carfan yn weithredol, o ran cyflawni deilliannau, cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth a gweithio ar y cyd. Sicrhau bod rhwymedigaethau rheoli'n cael eu dyrannu'n briodol a'u cyflawni.

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

- Sicrhau bod yr holl bolisïau, amcanion a phrosesau corfforaethol yn cael eu gweithredu a bod pobl yn cydymffurfio â nhw, a'u bod nhw'n cael eu cyfleu i staff mewn modd amserol ac effeithiol.

- Rhoi unigolion wrth galon pob dim rydych chi'n ei wneud a gwrando ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud a'u barnau wrth gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau.

- Hyrwyddo datblygu diwylliant dysgu a datblygu dull arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'i danategu gan ymchwil a data, ymgynghori a chyd-gynhyrchu gydag oedolion a phobl hŷn a'u teuluoedd.

Safonau Gwasanaeth a Rheoli Cyflawniad

- Nodi amcanion clir ar gyfer y maes gwasanaeth, goruchwylio datblygu a rheoli cyflawniad o ran cynlluniau gweithredu a sicrhau bod risgiau mawr yn cael eu nodi a bod y gwasanaeth yn ymateb iddyn nhw.

- Datblygu diwylliant o welliannau cyson a pharhaus drwy reoli cyflawniad yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau sesiynau goruchwylio o safon uchel ac sy'n hyrwyddo agwedd o gydgyfrifoldeb dros sicrhau darpariaeth wych o ran gwasanaethau a chyflawniad gwych yn unol â chynlluniau corfforaethol a'r gwasanaeth.

- Sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu monitro, eu hadolygu a'u hail lunio er mwyn gwella deilliannau. Byddwch chi'n gwneud hyn drwy herio arferion mewn modd adeiladol ac effeithiol a sicrhau bod y maes gwasanaeth yn gweithredu mewn modd effeithlon ac effeithiol.

- Datblygu a gweithredu cynlluniau a rhaglenni mewn modd creadigol a dychmygol er mwyn sicrhau bod deilliannau'n cael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithlon.

- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu mewn modd cydlynus ac sy'n hyrwyddo dulliau arloesol o sicrhau bod deilliannau a gytunwyd arnyn nhw'n cael eu darparu.

- Datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso Cynlluniau Cyflawni (gan gynnwys Dangosyddion Cyflawniad) ar gyfer pob maes gwasanaeth; gan nodi, dadansoddi ac ymateb i dueddiadau, patrymau galw a materion cyflawniad, yn ôl yr angen.

- Rhoi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cytuno ar dargedau personol ar gyfer Rheolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Carfan ac ar gyfer arfarnu ac adrodd ar eu cyflawniad yn rheolaidd.

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

- Bod yn atebol am gyflawniad personol, drwy fodloni targedau personol cytûn ac ymgymryd â rhaglenni parod ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Rheoli Adnoddau

- Adolygu a gwerthuso gofynion y gwasanaeth o ran adnoddau, o ran cynnal gwasanaethau hanfodol a sicrhau gwelliannau a datblygiadau angenrheidiol.

- Sicrhau trefnau rheoli effeithlon, a llawn dychymyg o adnoddau'r gwasanaeth, (pobl, cyllid, eiddo a gwybodaeth), i gefnogi targedau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau'r Cyngor.

- Bod yn fentrus wrth ddod o hyd i ffynonellau cyllid ychwanegol neu wahanol, gan sicrhau eich bod chi'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion caniatâd arbennig, cyfrifeg neu werthuso perthnasol.

Gweithio ar y Cyd a Chyfathrebu

- Datblygu a chynnal rhwydweithiau a phartneriaethau ehangach y mae'r Cyngor eu hangen er mwyn cyflawni'i flaenoriaethau.

- Meithrin a datblygu perthnasau cynhyrchiol a chadarnhaol gydag asiantaethau a phartneriaid, gan gynnwys yn niwydiant busnes a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â gyda chyrff rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

- Datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol ar gyfer cyfnodau ymgynghori ffurfiol ag asiantaethau a phartneriaid lleol a'r cyhoedd, ar gynllunio gwasanaethau a materion darparu, gan sicrhau bod unrhyw sylwadau yn bwydo i mewn i bolisïau a'r broses o ddod i benderfyniadau, fel y bo'n briodol.

- Datblygu trefnau gweithio ar y cyd cadarnhaol a chynhyrchiol lle mae modd cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Cyflawni gwasanaethau gwell ac/neu effeithlonrwydd.

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais Cyfarwyddwr y Gwasanaeth neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Rhoi cymorth i'r Cyngor chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a

O'ch penodi i'r swydd, dyma'r hyn byddwch chi'n ei gyflawni:

hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Mae gan bob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU YN ACHLYSUROL GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL Y BYDD DISGRIFIADAU SWYDDI YN NEWID YN SGIL HYNNY.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau** a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gan y person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n addas ar gyfer amgylchiadau penodol y swydd yma.

Gwybodaeth / Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Gradd neu gymhwyster galwedigaethol cyfwerth.	Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol wedi'i gymeradwyo gan sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru
Meddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn Gwaith Cymdeithasol neu Iechyd.	MSC OM5 (Rheoli Gweithredol)
Gwybodaeth helaeth o bolisïau a chyd-destun deddfwriaethol darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.	MSC SM5 (Rheoli Strategol)
Dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion cyfoes.	

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Profiad sylweddol o reoli gwasanaethau asesu a rheoli gofal gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ar lefel uwch, gan gynnwys rheoli staff a chyllidebau.	Profiad rheoli mewn perthynas â'r maes gwasanaeth penodol
Profiad sylweddol o ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.	Profiad helaeth o weithio'n agos â Chynghorwyr neu'r gallu i ddangos y byddwch chi'n meithrin sensitifrwydd gwleidyddol o'r fath yn gyflym.

Profiad o weithio mewn partneriaeth gadarn ac effeithiol gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, iechyd a phartneriaid eraill, gan gynnwys gweithio gyda defnyddwyr y gwasanaethau.	
Profiad o ddehongli a gweithredu canllawiau/deddfwriaeth newydd.	
Profiad a dealltwriaeth o reoli newidiadau sefydliadol yn llwyddiannus.	

Lefelau Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☒ *Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma* Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3–5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☒ Cymraeg Lefel 3 ☒ Cymraeg Lefel 3–5 ☒ Cymraeg Lefel 4 ☒ Cymraeg Lefel 5 ☒
I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, bwriwch olwg ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg	

Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:

Cymhwysedd	**Fframwaith Cymwyseddau Rheolwyr Strategol**
Meysydd Cymhwysedd	**Ymddygiadau a Gwerthoedd Cymhwysedd**
Datblygu a Chymell Pobl	Datblygu pobl ar gyfer y presennol a'r tymor hir a hybu diwylliant o ddysgu parhaol (Cynllunio'r Gweithlu) Gallu cyfleu negeseuon anodd mewn ffordd sensitif

Gweithio'n rhan o bartneriaeth ac mewn carfan	Meithrin diwylliant sy'n derbyn a gwerthfawrogi cyfnewid syniadau yn agored, a rhoi her mewn ffordd briodol Gweithio'n galed bob amser i ddeall gwahaniaethau o ran agendâu, anghenion, a safbwyntiau a gweithio drwyddyn nhw
Cyfathrebu'n Effeithiol	Teilwra'u harddulliau a'u hiaith ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl e.e. cwsmeriaid, Cynghorwyr, staff Mynd ati mewn ffordd ragweithiol i greu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer trafodaethau agored
Arwain Newid	Deall a chroesawu'r angen am newid ac yn ymateb yn gadarnhaol i agenda moderneiddio Deall beth ydy rhwystrau pobl eraill tuag at newid a'u cefnogi yn ôl y gofyn
Gweithio'n Strategol	**Gyrru blaenoriaethau strategol sydd wedi'u seilio ar wir angen a gwaith dadansoddi data cytbwys yn eu blaenau** **Meddu ar wybodaeth glir o'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau a'r ystyriaethau corfforaethol ehangach**
Rheoli Adnoddau	Rheoli cyllidebau'n llwyddiannus, ac yn deall, yn defnyddio, ac yn dadansoddi gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf rifol Bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyn mae modd ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael (Cynllunio'r Gweithlu)
Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth Wleidyddol	Achub ar y cyfle i gryfhau cysylltiadau â gwleidyddion a rhannu gwybodaeth Gwneud argymhellion clir sy'n hawdd eu cyfiawnhau
Canolbwyntio ar Ddefnyddwyr y Gwasanaeth	Meddu ar bolisïau a phrosesau datblygedig er mwyn dod â Defnyddwyr y Gwasanaeth yn rhan o bethau Ceisio gwybodaeth gan staff y rheng flaen a'i defnyddio er mwyn gwella gwasanaethau

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol